# Cyngor Cymuned – Bodedern - Community Council

## Asesiad Risg - Risk Assessment

| | PERYGLON | RISG | I BWY | LEFEL | MESURAU |
|---|---|---|---|---|---|
| ARIANNOL | Cyfrifon | Egluro'r Cyfrifon yn anghywir | Y Cyngor / Gymuned | Isel | Y Clerc i ddarparu Cyfrifon y Cyngor i'r Pwyllgor ac yn gwneud y cyfrifon yn fisol. Bydd dau aelod yn cofnodi bod y cyfrifon yn gywir. |
| | Praesept | Gosod y praesept naill ai yn rhy isel / uchel | Y Cyngor / Gymuned | Isel | Bydd y clerc yn hysbysu'r Cyngor am y gwariant fel y gallant wneud penderfyniad ar swm am y flwyddyn. Bydd y Clerc yn anfon y manylion i'r Cyngor Sir. Caiff y praesept ei dalu i'r cyfrif drwy Bacs. |
| | Cyflog y Clerc | Y Cyngor i sicrhau eu bod yn talu cyflog yn unol â chanllawiau Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol | Y Cyngor / Clerc | Isel | Y cyflog yn cael ei drafod yng nghyfarfod Mawrth yn barod ar gyfer Ebrill. Cyflog y Clerc yn cael ei ystyried wrth osod y praesept. Derbyniodd y Clerc oriau penodol i wneud y swydd. Ni thelir taliad ychwanegol heb drafodaeth. |
| | Taliadau | Torri rheolau ariannol y Cyngor | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd yr holl daliadau yn cael eu gwneud gyda siec efo dau lofnod neu gyda bacs. Rhaid i'r Clerc gael caniatad y Cyngor cyn gwneud unrhyw daliad. Contractwyr i anfon eu hanfonebau cyn y Pwyllgor. |
| | Derbyniadau | Torri rheolau ariannol y Cyngor | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd sieciau yn cael eu talu yn syth i'r cyfrif a phob derbynneb yn cael ei gofnodi. |
| | Contractwyr | Torri rheolau ariannol y Cyngor | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd contractwyr yn cael eu talu ar ôl gorffen y gwaith. Dylai'r anfoneb gael ei dderbyn cyn y Pwyllgor. Bydd contractau yn cael eu monitro yn rheolaidd a'u newid fel bo angen. |
| | TAW | Colli arian ar adaliad fyddai'n ddyledus i'r Cyngor. | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd yr arian yn cael ei hawlio bob blwyddyn. |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| IECHYD A DIOGELWCH | Yswiriant | Sicrhau polisi digonol ar gyfer yr asedau. Cydymffurfio gyda'r polisi. | Y Cyngor / gymuned | Uchel | Monitro asedau y Cyngor yn fanwl cyn ystyried y lefel gywir o yswiriant fydd yn diwallu'r anghenion. |
| | Eiddo | Cyflwr yr asedau yn gallu achosi niwed. | Y Cyngor / gymuned | Canolig | Cyfrifoldeb y Cyngor yw sicrhau bod yr eiddo mewn cyflwr da. Trafod problemau pan maent yn codi. Rhestr o eiddo'r Cyngor yn y polisi. |
| | Contractwyr | Os bydd contractwyr ddim yn cadw at reolau iechyd a diogelwch gall hyn achosi perygl. | Y Cyngor / gymuned | Canolig | Sicrhau bod gan gontractwyr yswiriant priodol pan fyddant yn gwneud gwaith i'r Cyngor. Derbyn copi o'u hyswiriant i'w archwilio gan y Clerc. |
| | | | | | |
| GWEINYDDIAD | Côd Ymddygiad | Torri amodau y Côd | Y Cyngor / gymuned | Isel | Côd Ymddygiad yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor. |
| | Cofnodion | Posibilrwydd o gamarwain y Cyngor | Y Cyngor / gymuned | Isel | Darperir y cofnodion gan y Clerc o leiaf 3 diwrnod cyn y cyfarfod. Ymhob cyfarfod byddant yn cael eu hadolygu, llofnodi a'u dyddio. Bydd copi ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu gweld ac maent ar wefan y Cyngor hefyd. Cedwir y cofndoion yn electroneg. |
| | Cytundebau | Posibilrwydd eu colli | Y Cyngor / gymuned | Isel | Cedwir yr holl gytundebau gan y Clerc. |
| | Gohebiaeth | Posibilrwydd o gamarwain y Cyngor | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd y gohebiaeth yn cael eu rhoi ar yr agenda yn fisol. Derbynnir y rhan fwyaf ohonynt drwy e-bost a bydd nifer ohonynt yn cael eu hanfon ymlaen i'r Cynghorwyr. |
| | | | | | |
| MYNWENT | Cyflwr y Fynwent | Gall damweiniau ddigwydd oherwydd cyflwr y fynwent | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd y Cyngor yn cadw golwg manwl ar y fynwent. |
| | Cerrig Beddi | Os ydynt yn rhydd gallent achosi damwain. | Y Cyngor / gymuned | Isel | Gwneir archwiliad manwl o'r cerrig beddi yn rheolaidd gan wneud rhestr o'r rhai sy'n beryglus. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd | | | Cysylltir â'r teulu, os yn bosib, ac os nad oes bydd y Cyngor yn cymryd y cyfrifoldeb. |
| | Gwaith yr Ymgymerwyr Angladdau | Gall damweiniau ddigwydd wrth agor bedd neu osod carreg | Y Cyngor / gymuned | Isel | Bydd y Cyngor yn archwilio gwaith yr ymgymerwyr angladdau i sicrhau eu bod yn gydymffurfio â rheolau y fynwent. Byddant yn gyfrifol am y bedd hyd at flwyddyn o ddyddiad y claddu er mwyn gwneud yn siwr nad oes ymsuddiant. |
| | | | | | |
| **CAE CHWARAE** | Offer Cae Chwarae | Offer yn cael eu malu, damweiniau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Y Cyngor / gymuned | Canolig | Bydd Cwmni Rospa yn gwneud archwiliad blynyddol ac yn anfon adroddiad manwl am yr offer. |
| | Meinciau a byrddau | Meinciau a byrddau yn cael eu malu, damweiniau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Y Cyngor / gymuned | Isel | Y meinciau a'r byrddau yn cael eu harchwilio yn rheolaidd ac ymatebir yn brydlon i'r pryderon. |
| | Mynediad, ffensys a waliau o amgylch y Cae Chwarae | Ffensys a waliau yn cael eu malu, damweiniau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Y Cyngor / gymuned | Canolig | Bydd Cwmni cymwys yn archwilio yn flynyddol ac ymatebir yn brydlon i'r pryderon. |
| | | | | | |
| **LLWYBRAU** | Llwybrau Cyhoeddus yn y Gymuned | Sicrhau bod y llwybrau mewn cyflwr da i'r cyhoedd allu cerdded arnynt. Cael eu malu, damweiniau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Y Cyngor / gymuned | Isel | Y Cyngor sydd yn gyfrifol am y llwybrau. Os cyfyd unrhyw broblem cysylltir â'r Cyngor Sir. |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **LLOCHESI BWS** | Llochesi Bws | Cael eu malu, damweiniau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Y Cyngor / gymuned | Canolig | I'w harchwilio yn rheolaidd ac ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon. |